# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Andrea Roberts

### Gweithiwr Cyswllt Rhanbarthol, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru

Helo, fy enw i yw Andrea Roberts a fi yw'r Gweithiwr Cyswllt Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru.

Fy rôl i yw cefnogi tri gweithiwr cyswllt sy'n gweithio ar draws tair sir. Rwy' hefyd yn darparu ymwybyddiaeth awtistiaeth i amrywiol wasanaethau, siopau, meddygon teulu, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu a llawer mwy. Hefyd, rwy'n cefnogi oedolion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ac sydd hefyd yn aros am ddiagnosis gan glinigwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ynghyd â rhieni a gofalwyr.

Yr uchafbwynt personol i fi oedd pan drefnais y diwrnod gwybodaeth ar gyfer y tair sir. Roedd yna 50 o stondinau gwybodaeth yn amrywio o golegau, gwasanaethau cyflogaeth, grwpiau cymdeithasol a gwasanaethau cymorth i rieni a gofalwyr. Daeth dros 100 o bobl i'r lleoliad ac roedd yr adborth i fi a thîm y Gwasanaeth yn ysgubol.

Rwy' hefyd wedi helpu i wneud newidiadau i fywydau pobl ac roedd un person oedd heb gael profiad o gyfleoedd cyflogaeth a thrwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, rhoddais becyn cymorth yn ei le drwy ymweld â'r ganolfan byd gwaith gyda'r unigolyn a threfnu llwybr ei fws i'w leoliad gwaith. Mae'r person yma nawr yn gweithio'n llawn amser ac yn teithio ar lwybrau bysys i wahanol leoliadau.

Enghraifft arall oedd pan gefnogais i ddyn ifanc oedd yn ymddiddori mewn gwaith gyda blodau felly cefnogais i ef i gwblhau'r ffurflen gais wirfoddoli a mynychais ambell i sesiwn gydag ef am fod ei orbryder yn gwneud iddo boeni am fynd i'r grŵp gwirfoddoli; mae e bellach wedi goresgyn ei orbryder ac mae'n gwirfoddoli'n amlach.

Diolch.